GRIFFITH, OWEN ('Giraldus '; 1832 - 1896), gweinidog gyda'r Bedyddwyr, golygydd ac awdur

Enw: Owen Griffith
Ffugenw: Giraldus
Dyddiad geni: 1832
Dyddiad marw: 1896
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: gweinidog gyda'r Bedyddwyr, golygydd ac awdur
Maes gweithgaredd: Crefydd; Llenyddiaeth ac Ysgrifennu; Argraffu a Chyhoeddi
Awdur: Robert (Bob) Owen

Ganwyd yn Tynybraich, Garn, Dolbenmaen, Sir Gaernarfon. Cafodd ei addysg yn hen ysgol Dolbenmaen o dan Owen Griffith, a daeth yn aelod yng nghapel y Bedyddwyr yn Horeb - gan gael ei fedyddio pan oedd yn 13 oed. Yn gynnar wedi hynny aeth yn brentis saer-coed-llongau ym Mhorthmadog, a bu'n gweithio yn iard y gwneuthurwyr llongau hyd 1862. Penderfynodd fyned i'r weinidogaeth, ac aeth i Goleg y Bedyddwyr, Hwlffordd. Bu'n weinidog yn Risca, sir Fynwy, ac yn Abergele cyn ymfudo i U.D.A. Cyn gadael Cymru yr oedd darnau barddonol o'i waith wedi ymddangos yn *Y Greal*, a pharhaodd i ysgrifennu i gylchgronau yn America.

Yn 1875 cychwynnodd *Y Wawr Americanaidd*, misolyn, a bu'n ei olygu hefyd nes y bu ef ei hunan farw yn 1896; at wasanaeth Bedyddwyr yn America y cyhoeddid hwn. Cyhoeddwyd fersiwn yn Saesneg hefyd, yn ddiweddarach, o dan yr enw *The Daylight*.

Cyhoeddodd dri llyfr: *Above and Around, containing Religious Discourses ... with Observations on Men and Things in Wales and America ...* (Utica, 1872, gydag 2il arg. yn 1877), *Naw Mis yn Nghymru ...* (Utica, 1884), a *Y Ddwy Ordinhad Gristionogol yn eu Gwraidd a'u Dadblygiad ...* (Utica, 1891). Bu farw 14 Mai 1896, yn ei 63 flwyddyn.

Awdur

Robert (Bob) Owen, (1885 - 1962)

Ffynonellau

Y Wawr sef cylchgrawn misol y Bedyddwyr Cymreig yn America

The Daylight

Eryri Jones, *Hanes y Garn a'i thrigolion yn y gorphenol sylwedd dau draethawd cyd-fuddugol yn Nghylchwyl Lenyddol Horeb, 1902* (c.1904)

Cymry America' (yn Frimston MS.)

Y Greal sef Cylchgrawn Misol at wasanaeth y Bedyddwyr

Y Drych, 1931

Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: Owen Griffith (Giraldus)

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20734066

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng

Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu